OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1988

## Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015

*Awdurdodiad Llys*

### Ceisiadau i'r llys

**4.**—(1) Yr awdurdod lleol (gan gynnwys awdurdod lleol yn Lloegr) sy'n gofalu am y plentyn, yn unig, a gaiff wneud ceisiadau i lys o dan adran 119 o'r Ddeddf (yn ddarostyngedig i'r pŵer sydd gan awdurdod lleol i drefnu ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau gan berson arall o dan adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) neu adrannau 14 i 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**2**)).

(2) Ond pan fo rheoliad 16 o'r Rheoliadau hyn yn gymwys ac yn addasu adran 119 o'r Ddeddf gan wneud yr adran honno'n gymwys i blant ac eithrio rhai sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, caniateir ceisiadau i lys gan y Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG, neu awdurdod lleol sy'n arfer ei swyddogaethau addysg, sydd yn darparu llety i blentyn y mae adran 119 o'r Ddeddf yn gymwys iddo.

### Dyletswydd i hysbysu rhieni ac eraill ynghylch bwriad i leoli plentyn mewn llety diogel

**5.** Pan fo awdurdod lleol yn bwriadu gwneud cais i lys er mwyn lleoli plentyn y mae'r awdurdod yn gofalu amdano mewn llety diogel, rhaid i'r awdurdod, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, hysbysu'r canlynol cyn gynted ag y bo modd—

(a) rhieni'r plentyn;

(b) unrhyw berson nad yw'n rhiant y plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhiant amdano;

(c) ymwelydd annibynnol y plentyn os penodwyd un; a

(d) unrhyw berson arall y tybia'r awdurdod lleol y dylid ei hysbysu.

### Cyfnodau hwyaf awdurdodiad gan y llys

**6.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), pan fo plentyn wedi ei wneud yn destun cais o dan adran 119 o'r Ddeddf, y cyfnod cychwynnol hwyaf y caiff llys awdurdodi cadw plentyn mewn llety diogel yw tri mis.

(2) Pan fo plentyn yn ddarostyngedig i gais i estyn y cyfnod mewn llety diogel o dan adran 119 o'r Ddeddf, y cyfnod pellach hwyaf y caiff llys ei awdurdodi ar unrhyw un adeg yw 6 mis.

### Cyfnod hwyaf awdurdodiad ar gyfer plant sydd ar remánd

**7.**—(1) Y cyfnod hwyaf y caiff llys, o bryd i'w gilydd, awdurdodi cadw plentyn, a roddwyd ar remánd i lety awdurdod lleol o dan adran 91(3) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (**3**), mewn llety diogel (pa un ai am gyfnod cyntaf ynteu cyfnod ychwanegol) yw cyfnod y remánd.

(**1**) 1972 p. 70.
(**2**) 2000 p. 22.
(**3**) 2012 p. 10.

(2) Mae'r cyfeiriad at "awdurdod lleol" ym mharagraff (1) yn cynnwys awdurdod lleol yn Lloegr.